

Cofion

- Mae'n cofion heddiw at amryw sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod yr haf – Gwenfyl Jones (Llansannan), Doreen Evans (Tanyfron), Eurgain Hughes, Arwyn Davies, Heddwyn Davies a Llion Davies (Llansannan), Mona Davies a Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog). Cofiw'n hefyd am eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd ac yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Gweddïwn eu bod oll yn profi o ddaioni Duw ac y byddant yn cael adferiad iechyd buan iawn.
- Llongyfarchiadau i Maldwyn a Meira Jones (Cefn Berain) a Trebor a Glenys Roberts (Llansannan), y pedwar wedi derbyn Medal Gee dydd Iau diwethaf am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Diolchwn amdanynt, ac am rai eraill sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.
- Mae eraill wedi bod yn dathlu yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau calonnog i: Owain Evans (Henllan) a Rhiannon ar eu priodas; Harold ac Enid Pierce (Llanefydd) ar ddathlu eu priodas aur; Victor a Dilys Vaughan (Saron) ar ddathlu Priodas Ddiemwnt; Megan Evans (Llansannan) ar ddathlu pen-blwydd arbennig; ac i bawb o'r Fro sydd wedi profi llwyddiant mewn sioeau ac eraill yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Anfonwn ein cofion at ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mr Elfed Davies (Plas Eleri); Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); Mrs Mair Roberts a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir). Gweddïwn eu bod hwythau yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

Arwerthiant dodrefn ac eitemau tŷ

yn Gwynant, Llansannan Nos Fawrth, Medi 6ed am 6:00 yr hwyr. Arwerthwr: Alwyn Jones, (Jones Peckover). Eitemau i'w gweld o 4:00 o'r gloch ymlaen.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Medi 2011

Sylwch ar ddyddiadau dwy oedfa
arbennig sydd i ddod ym mis Medi a
Hydref!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso cynnes i chi. Sut fis Awst gawsoch chi? Cyfle i ymlacio rhyw gymaint gobeithio a mwynhau yr haul!!!? Dyma'r Awst mwyaf clae'r ers 1993 medde'r pobl tywydd a hawdd yw eu credu am unwaith. Ddarau Ann a finne drefnu gwyliau yn Sbaen gan dybio cael dipyn o haul, ond tebyg iawn oedd hi yno hefyd er mawr siom. Poeth neu oer – mae hynny yn haws delio ag o ond mae'n anoddach o lawer delio hefo rhywbeth nad ydi o yr un peth na'r llall - y clae'r.

Dyma oedd rhybudd yr Arglwydd i'r eglwys yn Laodicea, sef eu bod wedi colli eu cariad cyntaf tuag ato a bod eu cariad wedi mynd glae'r – yn naill peth na'r llall. (Dat. 3: 14-22) Ac oherwydd hynny byddent yn cael eu 'poeri allan' ganddo.

"Gwyn fyd na fyddit oer neu boeth" (adn. 15). Geiriau cryf sy'n dweud wrthym pa mor bwysig ydi cadw ein cariad tuag at yr Iesu yn danbaid o eirias. Gweddïwn y bydd yr oedfaon heddiw dan fendith yr Ysbryd yn ein helpu i brofi gwres cariad Duw eto ac y bydd y Gair yn ein herio i roi ein hunain yn gyfan i'r Arglwydd Iesu mewn cariad a diolchgarwch.

Mae cyfnod newydd o'n blaenau a diolchwn i'r Arglwydd am ein cynnal hyd yn hyn. Trist iawn oedd gweld y lori fawr y tu allan i Heulfryn yr wythnos hon yn cludo offer y teulu tua'r briffddinas. Mae ein calonnau a'n dymuniadau gorau yn mynd hefo Meirion a Sarah, Catrin, Steffan, Sion a Hannah a gweddïwn drostynt yn wastadol. Bydd croeso mawr yn eu haros yma pob tro y byddant yn dychwelyd a gobeithio y cawn eu cwmni eto yn fuan. Gweddïwn yn arbennig dros Meirion yr wythnos nesa wrth iddo lywio y Gymanfa Gyffredinol yn absenoldeb y Parch. Bryn Williams oherwydd gwaeledd. Dymunwn iddo gryfder a doethineb oddi wrth yr Arglwydd.

Gyda llawenydd yr ydym yn croesawu Dr. Rhodri Glyn atom yn Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol. Dydi o ddim yn ddieithr i ni gan ei fod wedi gwasanaethu yma yn y Fro cyn ei gyfnod yng Nghei Newydd. Dymunwn yn dda iddo a diolchwn i Dduw am ei alw atom.

Hefyd, estynnwn ein llongyfarchiadau i Meira a Maldwyn, Bryn Pistyll a Glenys a Trebor, Acre Isa ar dderbyn y fedal Gee am eu gwasanaeth i'r Ysgol Sul a'u ffyddlondeb dros gymaint o flynyddoedd. Diolchwn am eu cyfraniad gwerthfawr a bydded hynny yn anogaeth i ninnau drysori yr Ysgol Sul a gwneud yn fawr ohoni.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Iau **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Bydd cyfarfod i drefnu rhaglen y Gymdeithas yn dilyn yr oedfa heno.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Sul nesaf Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir gwasanaeth arbennig yn Eglwys Henllan am 11.00 i ddiolch i'r Canon Philip Williams am ei wasanaeth i'r ardal, a bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn yn y Neuadd.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00.

Sul nesaf Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a chyfle i lawenhau gyda Maldwyn a Meira Jones ar dderbyn Medal Gee eleni. Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul am 11.15.

I ddod

- ****OEDFA ARBENNIG I DDERBYN NIFER O'N POBL IFANC YN AELODAU YN EGLWYSI'R OFALAETH** AR NOS SUL, MEDI 18FED.
- **Christian Viewpoint** - cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinnel, nos Lun, Medi 19eg am 7:30. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- **Diwrnod o Ddiolchgarwch** – Diwrnod o ddathlu, rhoi diolch, gemau, addoliad, a chyflwyno rhodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r Cartref Cariadus dydd Sadwrn, Medi 24ain o 1:00 – 4:00 yng Ngholeg y Bala.
- ****CYFARFOD SEFYDLU ANEURIN YN WEINIDOG YM MRO ALED A CHYFARFOD COMISIYNU RHODRI GLYN YN GYNORTHWY-YDD GWEINIDOGAETHOL YM MRO ALED** AR NOS SUL, HYDREF 2IL AM 6:00. MWY O FANYLION I DDILYN.
- **Teulu Dedwydd?** - Diwrnod o gymdeithasu, hyfforddiant, ysbrydoli a chefnogaeth i rieni; arweinwyr eglwysig; a gweithwyr plant, ieuenctid a theuluoedd yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Hydref 29ain o 10:30 – 3:00.
- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod Nos Iau, Medi 22ain yng Nghapel Henllan am 7.00 pryd y ceir cwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala.
- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cynnal Encil yng Ngholeg y Bala, dydd Iau, Medi 29ain. Os oes rhywrai â diddordeb i fynychu, cysylltwch â Marian Davies (870619), os gwelwch yn dda.
- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod nos Fawrth, Tachwedd 15fed yng Nghanolfan Seion, Dinbych am 7.00 yng nghwmni y Parch. Meirion Morris fydd yn dod i gyflwyno y rhaglen Dorcas.